

Cyngor Cymuned Llanystumdwy

Cofnodion rhaglen waith y Cyngor - nos Iau, 7fed o Ionawr, 2021 drwy 'Zoom', am 8:00 y.h.

Nid oedd yn bosib cynnal cyfarfod cyffredin yn y man arferfol, oherwydd y 'COVID 19'.

Yn bresennol drwy 'Zoom': Y Cynghorwyr Aled Davies (Cadeirydd), Aled Evans, Trefor Wyn Jones, Thomas Prys Jones, Margaret Griffith, Anwen Jones, Tegid Jones, Sian Angharad Parry, Sion Aled Jones, Angela Williams, Darren Morley, William Ifor Hughes, Gareth O. Davies a'r Clerc.

1. **Ymddiheuriadau:** Derbyniwyd ymddiheuriad oddi wrth y Cynghorwyr Naomi Jones a Ceri Jones.

2. Cyflwyno a chadarnhau cofnodion cyfarfod y Cyngor gynhaliwyd ar 3ydd o Ragfyr 2020, a chadarnhau cofnodion y cyfarfod busnes a gafodd ei gynnal 5ed o Dachwedd 2020, (roedd y Clerc wedi trefnu i'r Cadeirydd ei llofnodi ar 07.01.2021).

3. Llofnodi cadarnhâd taliadau BACS mis Rhagfyr 2020 - (roedd y Clerc wedi trefnu i'r Cadeirydd ei llofnodi cyn y cyfarfod ar 07.01.2021).

4. **Datgan buddiant personol - oedd Cynghorydd Aled Evans** - rhif 6a, oherwydd fod y safle yn ffinio â'i dŷ, sef lléd cae i ffwrdd.

5. **Materion gan Cyngor Gwynedd**

6. **Cyngor Gwynedd - cais cynllunio yn y gymuned**

a. Cais rhif: -C20/0820/41/DT -**Bryn Gwynt, Lón Goed, Afonwen, Chwilog**, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6RZ - cais ar gyfer codi estyniad unllawr ar gefn yr eiddo. Roedd y cais yma wedi cyrraedd yn rhy hwyr i'w ychwanegu ar raglen mis Rhagfyr, felly penderfynwyd ei drafod ar 07.01.2021. **Dim gwrthwynebiad**

b. Cais rhif: - C20/1051/41/DT - **Fferm Bryn Gwynt, Chwilog**, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6LQ - cais i ddymchwel estyniadau presennol ac adeiladu estyniad deulawr ar ochr y tŷ. **Dim gwrthwynebiad**

7. **Biniau halen** o fewn y gymuned - mae 5 ohonynt:-

- Ger Gwyddfor, Chwilog.
- Pentyrch Uchaf, Llanybi.
- Rhwng y Bont a Chapel y Beirdd, Bryn Beddau, Rhoslan.
- Tan yr Erw, Lon Gefn, Llanystumdwy.

Mae angen cadw golwg ar faint o halen sydd ynddynt yn gyson yn ystod y gaeaf, a derbyniwyd cadarnhâd fod digon ynddynt arwahan i'r un Bryn Beddau- angen i'r Clerc ofyn am ei lenwi.

Materion yn y gymuned.

8. **Llanystumdwy**

a) Pont Llanystumdwy - clirio tir y Cyngor yn Maenywern - Y gwaith o dorri'r brigau sydd yn hongian dros y clawdd ar hyd y lon o'r bont i'r bedd wedi cael ei wneud. Derbyn.

b) Lodge Gwynfryn - trethdalwyr yn holi os oes ffens wedi cael ei godi ar dir y Cyngor, ger mynedfa Plas Gwynfryn. Y Clerc wedi anfon llythyr at Adran Priffyrdd Cyngor Gwynedd i holi pwy oedd perchennog y tir, a beth oedd y gwaith oedd yn mynd ymlaen yno, ac wedi derbyn ebost yn dweud:-

“Mae'r Adran Briffyrdd a Adran Cynllunio yn edrych i mewn i'ch ymholiad/cwyn am yr eiddo uchod ar hyn o bryd ac fe'ch hysbysir maes o law o ganlyniadau'r archwiliad hwnnw ynghyd ag unrhyw weithredu pellach os penderfynir felly”. Y Clerc wedi holi eto, i gael diweddariad oherwydd fod coed wedi cael ei plannu yno hefyd.

9. **Rhoslan/Ynys**

10. **Chwilog**

a) Llywodraethwr Cymuned Ysgol Chwilog- eglurwyd fod Mr Dafydd Alan Williams wedi cytuno i fod yn lywodraethwr.

11. **Pencaenewydd/Sardis**

12. **Llangybi**

a) Arwydd bach 30 m.y.a rhwng Capel Helyg a Groeslon 'Refail, Llangybi wedi ei ddymchwel. Y Clerc wedi hysbysu Cyngor Gwynedd ond heb gael ateb eto.

b) Adroddiad blynyddol cae chwarae Llangybi 22.12.2020 gan 'Fields in Trust' - y Clerc wedi ei rannu â phawb er mwyn ei drafod ar y noson. Cadarnhawyd fod yr offer chwarae yn gymwys hefo rheolau diogelwch. **Tudalen 6 o'r adroddiad - roeddent yn argymhell ein bod yn gosod rhybudd yno hefo cyfeiriad y safle, manylion cyswllt pebyddai angen tynnu sylw at rywbeth, neu unrhyw fater brys. Gofynwyd i'r Clerc drefnu i wneud hyn, ac i osod un wedi ei lamineiddio ar yr hysbysfwrdd yn Llangybi hefyd.**

13. **Enwau lleol** - gosod arwyddion o enwau lleol yn y gymuned, sef enwau pontydd, afonydd, enw cynhenid ambell groesffordd, a'i gwneud yn weledol i bawb ei gwybod a'i defnyddio i'r dyfodol. **Roedd y Clerc wedi siarad hefo Mr Osian Richards, Ymgynghoriaeth Gwynedd o ran strwythur y pontydd. Fe wnaeth ein cynghori fod enwau gwahanol ar rai pontydd, ac y byddai yn medru bod o gymorth i wneud yn siwr fod yr enw cywir yn cael ei ddefnyddio. Penderfynwyd wneud 4 enw pont yn gyntaf, sef Pont Rhydybenllyg, Pont Rhydcroesau, Pont Hendre-garcin a Phont Rhyd yr Eirin,** a bod angen i'r Clerc wneud ymholiadau am brisiau gan ddau gwmni llechi lleol, sef Llechi'r Ddraig a Cerrig Cyf.

Materion Ariannol

14. Adroddiad Ariannol gan y Clerc a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol.

Fe wnaeth y Clerc anfon ebost at y cynghorwyr i gyd cyn y cyfarfod, drwy gynnwys dogfen 'excel' o'r sefyllfa ariannol hyd at 07.01.2021. Mae hyn yn cadw golwg manwl ar y gwariant sydd eisioes wedi ei wneud, ac y rhagwelir sydd angen ei wneud erbyn diwedd Mawrth 2021. Derbyn.

15. **Cyfarfod Cyllid/Busnes** - a gynhaliwyd 12.11.2020 - roedd cofnodion y Pwyllgor yma wedi cael ei rannu drwy ebost i'r cynghorwyr cyn y cyfarfod. **Derbyn.**

16. **Gosod Praesept 2021/2022** – y Clerc wedi gofyn am £18,000.00 eto gan Adran Cyllid, Cyngor Gwynedd. Trafodwyd y mater yn y Pwyllgor Busnes, ar 12.11.2020, a phrif gyfarfod ar 03.12.2020.

17. **Cylch archwilio 3 blynedd** – e-bost gan Mr Derryck Evans, Rheolwr Archwilio Cymru yn dweud bydd Cyngor Cymuned Llanystumdwy yn cael archwiliad ‘llawn’ 2020-21, ac archwiliad ‘syfaenol’ am y ddwy flynedd dilynol. Mae archwiliad ‘llawn’ yn cyfeirio at weithdrefn archwilio newydd sydd yn cynnwys profi trafodion yn fanwl. **Derbyn.**

18. **Archwiliad Allanol Cyfrifon 2019-20.**

Y Clerc wedi derbyn ymateb gan yr Archwilwyr Allanol ar 09.12.2020, (ac wedi ei arwyddo ganddynt ar 26.11.2020) yn datgan ei bod wedi cwblhau a chymeradwyo’r archwiliad ar gyfer 2019/2020. Bydd angen cymeradwyo a derbyn hyn gan y Cyngor, yna bydd y ffurflen flynyddol a’r hysbysiadau yn cael ei arddangos yn y manau priodol yn y wardiau, ac ar y wefan. **Derbyn.**

19. **Hysbyseb ceisiadau am Gymorth Ariannol** gan fudiadau o fewn dalgylch y Cyngor- y Clerc wedi trefnu i roi hysbyseb yn rhifyn mis Tachwedd, a Rhagfyr o’r Ffynnon, ac ar yr hysbysfyrdau a’n gwefan gyda dyddiad cau 15ed o Ionawr 2021.

20. **Taliadau** BACS angen cael ei gwneud yn dilyn y cyfarfod 07.01.2021:

Enw/Rheswm	Rheswm	Pris £	TAW	Cyfanswm Taliad £	Taliad BACS
Cyngor Gwynedd (007950B0067480D)	Toiledau Llanystumdwy 2020/21	<u>2000.00</u>		<u>2000.00</u>	<u>2000.00</u>

Cyflog mis Rhagfyr 2020 y Clerc i’w rannu rhwng y Clerc a Chyllid a Thollau EM.

Enw/Rheswm	Swm £	Cyfanswm Taliad net £	Taliad BACS :- £
Cyflog sylfaenol y Clerc, Rhagfyr 2020 35 awr x £10.83 = £379.05	379.05 - Llai treth £76.00 = £303.05	<u>303.05</u>	<u>303.05</u>
Cyllid a Thollau EM Treth ar enillion y Clerc Rhagfyr 2020	380.00 x 20% = £76.00	<u>76.00</u>	<u>76.00</u>
Costau’r Clerc Rhagfyr 2020	£16.65	<u>16.65</u>	<u>16.65</u>

Bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal nos Iau 04.02.2021, drwy ‘Zoom’.